

GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO



Mae'n bwysig iawn i chi fod yn ddiogel. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol neu'r coleg, sut bynnag y byddwch yn gwneud hynny – ar fws, trê, beic, cerdded neu unrhyw ffordd arall. Os ydych yn dal bws i'r ysgol neu'r coleg, mae'n rhaid i chi hefyd ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fws Ysgol.

Os na fyddwch yn dilyn y Cod yma, er mwyn i chi a phobl eraill fod yn ddiogel, gall awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau ddod ag achos yn eich erbyn. Gallai hyn olygu colli eich hawl i ddefnyddio trafndiaeth ysgol, a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol.

Eich Cyfrifoldeb

- Cofiwch barchu pobl eraill, gan gynnwys dysgwyr eraill, gyrwyr a'r cyhoedd.
- Cofiwch barchu cerbydau ac eiddo.
- Byddwch yn gwrtais bob amser.
- Peidiwch byth â thafu sbwriel.
- Cofiwch ufuddhau'r gyfraith bob amser.

Your Eich Diogelwch

- Cofiwch ymddwyn yn dda wrth deithio.
- Cofiwch ddilyn cyfarwyddiadau'r gyrwyr wrth deithio.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrwyr.
- Croeswch y ffordd yn ddiogel ac yn synhwyrol.
- Teithiwch ar lwybr dio gel bob amser.

Eich Hawliau

- Bod yn ddiogel wrth deithio.
- Cael eich trin yn deg a gyda pharch.
- Dweud wrth rywun os oes rhywun neu rywbeth yn creu trafferth i chi.
- Peidio â chael eich bwlio na chael unrhyw un yn pigo arnoch chi.

DYWEDWCH WRTH ATHRO,

RHIANT NEU YRRWR AM UNRHYW

YMDDYGIAD GWAEL NEU FWLIO

RYDYCH CHI'N EI WELD.



GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.

DILYNWCH Y COD TEITHIO.

Y COD TEITHIO AR FWS YSGOL



- Yn y safle bysus, arhoswch am y bws yn drefnus, gan gadw oddi ar y ffordd.
- Cytunwch gyda'ch rhieni beth ddylech ei wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch yn colli'r bws.
- Pan fydd y bws yn cyrraedd, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwthio na rhuthro am y drws.
- Dangoswch eich pas bws (os ydych wedi cael un) wrth i chi fynd ar y bws.
- Ar fws ysgol, arhoswch yn eich sedd nes i chi gyrraedd pen y daith.
- Ar fws cyhoeddus, dewch o hyd i sedd os oes un ar gael.
- Peidiwch byth â chreu rhwystr yn yr eil gyda'ch bag neu eiddo arall.
- Gwisgwch wregys diogelwch bob amser os oes un ar gael.
- Peidiwch â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.

- Peidiwch â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch byth â thafllu unrhyw beth yn y bws nac oddi ar y bws.
- Peidiwch byth â difrodi na fandaleiddio'r bws.
- Peidiwch byth ag agor drysau neu a llanfeydd y bws ac eithrio mewn argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr.
- Os bydd damwain, arhoswch ar y bws nes i chi gael cyfarwyddiadau i adael. Os yw'n beryglus i aros ar y bws, ewch allan drwy'r allanfa fwyaf diogel.
- Peidiwch byth â cheisio mynd ar neu oddi ar y bws nes bydd wedi stopio.
- Ewch oddi ar y bws yn drefnus, gan fynd â'ch holl eiddo gyda chi.
- Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen nac yn agos at gefn y bws.

DYWEDWCH WRTH ATHRO,

RHIANT NEU YRRWR AM UNRHYW

YMDDYGIAD GWAEL NEU FWLIO

RYDYCH CHI'N EI WELD.

